**<u>Pwyllgor Cyfle Cyfartal</u>**

Dyddiad: 21 Mawrth 2001

Amser: 9.00am

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynylliad Cenedlaethol

**TEITL: TESTUN LLYTHYR ODDI WRTH YR YSGRIFENNYDD PARHAOL I CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**"LIFTING EVERY VOICE"**

Rwy'n croesawu'n fawr adroddiad Roger Mackenzie a'i argymhellion ar gyfer diarddel hiliaeth sefydliadol o'r Cynulliad Cenedlaethol. Ar y mater hwn, yn yr un modd â materion eraill, rwyf am i'r Cynulliad osod esiampl i eraill. Rwy'n benderfynol o gael gwared ar agweddau a phrosesau sy'n gallu arwain at wahaniaethu gan gynnwys y rhai hynny sy'n peri i bobl o ba bynnag gefndir beidio â cheisio gwaith yn y Cynulliad.

Wrth roi'r adroddiad ar waith, byddaf yn rhoi ystyriaeth lawn i sylwadau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y Cabinet a'r Cynulliad yn ehangach. Fy nhasg gyntaf fydd comisiynu'r cynllun gweithredu a argymhellwyd gan Roger Mackenzie. Byddaf yn ceisio sylwadau'r Undebau Llafur er mwyn sicrhau bod sylwadau rhesymol staff yn cael eu hystyried yn briodol. Byddaf hefyd yn derbyn cyngor gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ac ymgynghorydd y Gwasanaeth Sifil ar Amrywiaeth a Chyfle Cyfartal. Ar yr amod y bydd yn bosibl penodi rhywun i'w baratoi, rwy'n bwriadu cyhoeddi cynllun gweithredu drafft ym mis Gorffennaf ar gyfer ymgynghori â'r Pwyllgor ymysg eraill.

Ni ddylai'r gwaith hwn aros ar ffiniau'r Cynulliad, ac ni ddylai chwaith ymwneud â hiliaeth sefydliadol yn unig. Rwy'n bwriadu gofyn i Gyfarwyddwyr y Grwpiau fynd i'r afael â'r argymhellion sydd wedi eu hanelu at y sector cyhoeddus yn ehangach, a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn benodol. Byddaf hefyd yn ymgynghori â'r Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal i ofyn eu barn ar sut y gellir ymgorffori argymhellion ehangach Roger Mackenzie yn ein hymdrechion i sicrhau mwy o amrywiaeth a chyfle cyfartal ledled y Cynulliad, nid yn unig ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig.

Mae hon yn broses fawr, cymhleth a phwysig, ac rwyf yn benderfynol o fanteisio ar y cyfle a ddaw yn sgil adroddiad Mackenzie i osod y Cynulliad ar y blaen yn y frwydr yn erbyn hiliaeth sefydliadol.

**JON SHORTRIDGE**